



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Preswyl Yr Hafod

**Cartref Hen Bobl Yr Hafod
Rhos y Dre
Aberteifi
SA43 1NT**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/04/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i:

psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cartref Gofal Preswyl Yr Hafod

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal Heb Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Sir Ceredigion
Lleuedd cofrestredig	28
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	15 Tachwedd 2022
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal da yn Yr Hafod. Mae rheolwr newydd wedi'i chyflogi ac mae gan y tîm barch mawr tuag ati. Mae'r rheolwr yn arwain tîm o weithwyr llawn cymhelliant i ddarparu gofal a chymorth o safon dda i'r bobl. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda ac mae prosesau ar waith i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau rheoliadol.

Mae'r bobl, a'u cynrychiolwyr yn teimlo eu bod wedi gwneud penderfyniad da wrth ddewis gwneud Yr Hafod yn gartref iddynt, boed hynny ar sail tymor hir neu er mwyn cael gofal tymor byr. Ceir awyrgylch cyfeillgar, digynnwrf a threfnus yn y gwasanaeth.

Nid yw'r gwasanaeth wedi mynd i'r afael â'r gwelliannau angenrheidiol i'r amgylchedd ffisegol a nodwyd yn flaenorol. Mae hyn yn cael rhywfaint o effaith andwyol ar y bobl, ond ar y cyfan, maent yn gadarnhaol o ran ansawdd y gofal a gânt yn y gwasanaeth.

Llesiant

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu diogelu rhag camdriniaeth, niwed ac esgeulustod. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu ac maent yn hyderus y byddai'r rheolwr yn mynd i'r afael ag unrhyw bryderon y byddent yn eu codi ac y byddai'n cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y bobl yn cael eu diogelu. Mae'r gweithwyr gofal wedi cwblhau hyfforddiant diogelu ac mae'r darparwr yn gwneud yr atgyfeiriadau angenrheidiol i wasanaethau statudol.

Mae'r cydberthnasau rhwng y bobl a'r rheini sy'n gofalu amdanynt yn dda. Mae un yn disgrifio'r staff fel "*absolutely wonderful... they can't do enough*" a dywedodd un perthynas "*the staff are lovely... can't fault them ... they are as good as gold*". Mae'r rhyngweithio yn gyfeillgar ac yn gefnogol. Dywedodd un unigolyn ei fod yn hoffi "*a cuddle*" gan y staff a dywedodd perthynas arall "*the staff are always friendly... they are very good to X*".

Gall y bobl siarad â'r gweithwyr gofal yn eu dewis iaith. Mae sawl aelod o'r tîm yn siarad Cymraeg a chlywsom enghreifftiau o Gymraeg yn cael ei siarad drwy gydol yr arolygiad.

Mae'r bobl yn cael rhai cyfleoedd i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae hyn yn cynnwys gemau digymell a cherddoriaeth a drefnir gan unigolion neu aelodau o'r staff yn ogystal â'r bobl, gan gynnwys trefniadau i blant lleol ymweld â'r gwasanaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r bobl o'r farn bod amllder y gweithgareddau fwy neu lai'n iawn.

Nid yw'r amgylchedd ffisegol yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant y bobl mewn rhai ardaloedd. Nodwyd hyn yn ystod arolygiadau blaenorol ac mae'n parhau'n faes lle mae angen gwelliannau. Mae rhai pobl yn anfodlon ar yr amgylchedd, ond mae eraill yn teimlo bod ansawdd y staff a'r gofal a gânt yn bwysicach na'r problemau â'r amgylchedd.

Gofal a Chymorth

Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys y wybodaeth sydd ei hangen i lywio a chyfeirio'r gofal. Ceir dogfen ddefnyddiol, sef 'Amdanaf i', sy'n cynnwys gwybodaeth am bwy a beth sy'n bwysig i'r unigolyn. Caiff unigolion a'u cynrychiolwyr eu hannog i gyfrannu at y dogfennau hyn. Caiff cynlluniau gofal ac asesiadau risg eu hysgrifennu ar gyfer ystod o feysydd, gan gynnwys cyfathrebu, symudedd a maeth. Caiff y cofnodion gofal eu hadolygu'n rheolaidd. Mae gan bob unigolyn ddyddiadur dyddiol sy'n nodi'r gofal a'r cymorth a gynigir, yn ogystal â sut y gwnaeth yr unigolyn dreulio ei amser. Mae'r rhan fwyaf o'r cofnodion yn adlewyrchu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac rydym wedi gofyn i'r darparwr sicrhau bod pob cofnod yn adlewyrchu hyn.

Caiff anghenion iechyd corfforol y bobl eu diwallu. Gwneir atgyfeiriadau at weithwyr iechyd proffesiynol fel y bo angen ac mae Nyrs Ardal yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Gall y gweithwyr gofal adnabod arwyddion briwiau pwysu ar y croen ac mae'r cyfarpar lleddfu pwysau angenrheidiol ar gael iddynt ei ddefnyddio.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Nid yw'r gweithwyr gofal yn gorfod rhuthro ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dweud y bydd gweithwyr yn dod i'w helpu'n ddi-oed os byddant yn gofyn am gymorth. Gwelsom enghreifftiau o'r gweithwyr gofal yn ymateb mewn modd amserol pan oedd angen yn ystod yr arolygiad. Nid yw'r gweithwyr gofal yn rhuthro wrth helpu i roi gofal personol, a gwelsom enghreifftiau ohonynt yn helpu'r bobl yn yr ardaloedd cymunedol mewn ffordd gyfeillgar a hamddenol.

Mae'r bobl yn cael rhai cyfleoedd i wneud y pethau y maent yn eu mwynhau. Dywedwyd wrthym am sesiwn ganu ddiweddar pan wnaeth y bobl ganu i gyfeiliant unigolyn a oedd yn chwarae'r piano. Mae'r bobl yn chwarae cardiau ac yn gwneud rhai gweithgareddau cadair gyda'r gweithwyr gofal. Maent yn ymddangos fel petaent yn mwynhau'r gweithgareddau hyn. Daeth plant o feithrinfa leol i ymweld â'r gwasanaeth ac roedd y bobl wrth eu bodd yn treulio amser yng nghwmni'r plant. Er bod rhai o'r bobl yn mwynhau treulio amser gyda phobl eraill, mae'n well gan eraill dreulio amser ar eu pen eu hunain, naill ai yn eu hystafell neu yn un o'r lolfeydd llai o faint.

Mae'r gwasanaeth yn deall pwysigrwydd maeth da. Cafodd y gegin sgôr o bump gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y sgôr uchaf posibl. Mae'r cypyrddau bwyd yn llawn, ac mae'r rhan fwyaf o'r prydau bwyd yn cael eu gwneud gan ddefnyddio cynhwysion ffres. Mae'r tîm arlwygo yn ymfalchïo yn ei waith ac yn gyffredinol, yn teimlo fel rhan o'r tîm. Cynigir dewisiadau i'r bobl, ac mae amseroedd bwyd yn brofiadau cymdeithasol gyda'r bobl yn cael eu hannog i ddefnyddio'r ystafell fwyta. Ond os oes yn well ganddynt gael eu pryd yn un o'r lolfeydd neu yn eu hystafell, caiff y dewis hwnnw ei barchu. Mae'r gweithwyr gofal yn deall pwysigrwydd hydradu cyson a chaiff diodydd eu cynnig drwy gydol y dydd. Cedwir siartiau cydbwysedd hylif lle bo angen. Darperir ar gyfer deietau arbennig, a chaiff digwyddiadau arbennig eu dathlu. Nid oedd siartiau pwysau ar gael, a dywedodd y rheolwr

ei bod wrthi'n cyflwyno adnodd monitro maeth newydd. Mae'r bobl yn gwbl gadarnhaol o ran y prydau, gydag un o'r sylwadau a wnaed yn yr arolwg adborth yn dweud "*It's better than the Ritz*" ac un arall yn dweud "*it is lovely*".

Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn gwasanaeth nad yw bob amser yn addas ar gyfer eu hanghenion. Mae'r lolfeydd a gafodd eu hailaddurno'n ddiweddar yn parhau i fod yn lleoedd dymunol i'r bobl dreulio amser gyda'i gilydd a dywedodd un unigolyn wrthym ei fod wrth ei fodd yn treulio ei amser yn un o'r ystafelloedd bach.

Mae'r bobl wedi personoli eu hystafelloedd â ffotograffau ac ornamentau ac maent yn dweud bod eu hystafelloedd yn gyfforddus.

Fodd bynnag, nid yw'r gwaith i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel ac i gyrraedd safon dderbyniol wedi cael ei wneud. Trefnwyd i ddrysau tân newydd gael eu gosod ym mis Gorffennaf, ond mae'r gwaith diogelwch tân sydd ei angen yn fwy na'r hyn y credwyd y byddai ei angen i ddechrau. Mae to'r gwasanaeth yn gollwng ac mae'r ffenestri mewn cyflwr gwael. Mae darnau o goncrit rhydd ac mae nifer o'r ffenestri wedi chwythu sy'n ei gwneud hi'n anodd gweld drwyddynt. Mae rhannau o'r gwasanaeth wedi dyddio, ac nid yw'r atgyweiriadau a wnaed bob amser wedi cael eu cynnal i safon dda. Trafodwyd hyn â'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol a ddywedodd ei bod wedi bod yn anodd cwblhau'r gwaith gan nad oedd gweithwyr ar gael ac oherwydd anawsterau wrth gytuno ar y gwaith gofynnol. Cyhoeddwyd Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth yn ystod arolygiad blaenorol a chan nad yw'r gwasanaeth wedi ymdrin â'r meysydd a nodwyd eto, mae'r Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth hwn yn parhau heb ei ddatrys ac felly'n weithredol o hyd.

Mae astudiaeth dichonoldeb yn cael ei chynnal i ystyried y ffordd orau o fwrw ati â'r gwaith sydd ei angen i sicrhau bod y gwasanaeth yn cyrraedd y safon angenrheidiol ac mae'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r gweithwyr yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau hyn. Yn y cyfamser, mae gwaith ar y gweill i addurno ardal y dderbynfa, yr ystafell fwyta a rhai ystafelloedd gwely, ac yn ystod yr arolygiad, roedd gwaith trydanol yn dechrau er mwyn gwella'r goleuadau yn y coridorau.

Mae'r safonau glendid yn gyffredinol dda ym mhob rhan o'r adeilad, ac nid oes unrhyw arogleuon gwael. Byddai'n werth ymgymryd â gwaith i dynnu llwch o fannau uchel mewn rhai ardaloedd, ond mae swydd wag ar hyn o bryd sy'n golygu mai un gweithiwr cadw tŷ sy'n gyfrifol am y gwasanaeth cyfan.

Mae rhai ardaloedd awyr agored ar y safle, ond nid ydynt yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda sy'n golygu nad yw'r bobl bob amser yn gallu crwydro yn y gerddi nac yn gallu gwneud y defnydd gorau o gyfleoedd i dreulio amser yn yr awyr iach.

Mae prosesau ar waith i sicrhau bod cyfarpar a gwasanaethau yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Yn ystod yr arolygiad, roedd peirianwyr yn cynnal eu harolygiadau eu hunain o'r cyfarpar symud a chodi a chario a'r gwelyau, a nodwyd ganddynt eu bod i gyd mewn cyflwr da.

Mae'r amgylchedd ffisegol yn cael rhywfaint o effaith andwyol ar y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, gan nad ydynt yn gallu gweld yn glir drwy rai o'r ffenestri; mae ardal o leithder ar un wal ac yn gyffredinol, mae ôl traul ar y gwasanaeth ac mae'n llwm mewn mannau. Fodd bynnag, mae'r bobl o'r farn bod safonau'r gofal ac ansawdd y staff yn gwneud iawn am hyn, gydag un cynrychiolydd yn dweud er y gellid gwneud rhywfaint o waith i adfywio'r gwasanaeth, mai'r gofal a'r cymorth a roddir yw'r flaenoriaeth.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae rhai prosesau effeithiol ar waith i fonitro ansawdd. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac mae'r adroddiadau yn dangos ei fod yn ymgynghori â'r bobl a'r gweithwyr gofal fel rhan o'i ymweliadau. Ysgrifennwyd adroddiad sicrhau ansawdd cynhwysfawr a myfyriol, sy'n tynnu sylw at beth mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda a pha welliannau sydd eu hangen.

Mae rheolwr newydd wedi'i chyflogi sydd wrthi'n sefydlu ei hun fel arweinydd uchel ei pharch sy'n hawdd mynd ati, ac sy'n goruchwyllo'r gwasanaeth yn dda. Mae aelodau'r tîm arwain yn gwbl ymwybodol o'r pryderon am y safle, ac maent yn gweithio gyda'u cydweithwyr i fynd i'r afael â'r pryderon. Roeddent yn cydnabod yr oedi annerbyniol a fu wrth wneud cynnydd.

Caiff gweithwyr gofal eu penodi drwy ddilyn proses recriwtio ddiogel. Caiff gwybodaeth ei chadw'n electronig ac mae'r system yn hawdd ei defnyddio. Mae'r cofnodion yn cynnwys y wybodaeth sydd eu hangen, gan gynnwys geirdaon a gwiriadau diogelwch.

Mae sesiynau goruchwyllo yn cael eu trefnu ar gyfer pob gweithiwr gofal. Mae'r rheolwr wedi nodi na chafodd hyn ei wneud yn unol â'r Rheoliadau ac mae wrthi'n rhoi proses ar waith i sicrhau y cânt eu cynnal yn unol â'r terfynau amser. Fodd bynnag, mae'r gweithwyr gofal o'r farn eu bod yn cael adborth ar eu gwaith i'w helpu i ddatblygu'n broffesiynol. Mae pwyslais sylweddol ar sicrhau bod y tîm yn cynnwys aelodau o staff medrus sydd wedi'u hyfforddi'n addas, ac mae'r gweithwyr yn cwblhau hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd gan gynnwys Symud a Chodi a Chario; gofal y geg; gofal croen ac atal a rheoli heintiau.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
44	Nid yw darparwr y gwasanaeth yn cydymffurfio â rheoliad 44 oherwydd nid yw'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n ddigonol. Mae angen i'r darparwr gwblhau'r holl waith a gynlluniwyd i wella'r décor ym mhob rhan o'r cartref.	Heb Gyflawni

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 01/05/2024